
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 No. 3275

Gorchymyn Sir Fynwy (Newidiadau Etholiadaol) 2002

Enwi, cychwyn a dehongli

- 1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Fynwy (Newidiadau Etholiadaol) 2002
- (2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:
- (a) at ddibenion achosion sy'n arwain at unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad, sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003; ac
- (b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.
- (3) Yn y Gorchymyn hwn—
- ystyr “adran etholiadol” (“*electoral division*”) yw un o adrannau etholiadol Sir Fynwy fel y'i sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Sir Fynwy 1994⁽¹⁾;
- ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;
- ystyr “map” (“*map*”) yw'r map a farciwyd “map Gorchymyn Sir Fynwy (Newidadau Etholiadol) 2002” ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976⁽²⁾.

(1) Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

(2) [O.S. 1976/246](#), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 ([O.S. 1978/247](#)).